# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 15th May 2013. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** Paul J. Ashton | **Tel:** 01874 623507 |
| **Ward:** St. Mary | **Mobile:** 07813 624799 |
| **Shire:** Brecknockshire | **Email:** cllr.paul.ashton@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Liberal Democrats | **Date:** September 2013 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

I served on these Powys County Council committees [actual attendance/number of meetings held] and working groups:
Powys County Council – 8/9
Democratic Services Committee – 5/6

- Member Development Working Group

Employment and Appeals Committee including panels – 6/6
Local Development Plan Working Group [Vice Chairman]
Pensions and Investment Committee [Vice Chairman] – 4/5
Brecknockshire – 6/7
Brecon Property Rationalisation Board
Brecknockshire Museum Working Group
Brecon Leisure Centre Consultative Committee (Chairman)
TAN 8 Working Group

I served on the following outside organisations:
Brecon Beacons National Park Authority (BBNPA) including the following Committees:

- Planning Committee
- Member Development Working Group
- Urgent Business Committee

Trustee of Brecon Volunteer Bureau
Governor of Mount Street Infants School
Governor of Mount Street Junior School

**Section 2: Constituency activity**

I held regular joint surgeries with either the M.P. or A.M. at the Liberal Democrat office in Brecon, which is in my ward. I also delivered a regular "Focus" newsletter throughout the ward (1,200 addresses). This had articles of concern to residents and my contact details. I acted as an advocate for residents in planning disputes etc and provided advice to residents in respect of P.C.C. issues such as parking, streetlighting etc.

I attended public meetings in the ward which may impact on my role as Councillor, e.g. Health Board Consultations, Police and Community Together [PACT] meetings, Utility Companies etc. I gave talks to PROBUS and Rotary in Brecon.

I intervened with the Post Office to get a post box reopened, and another replaced.
I requested additional litter bins in areas where dog fouling has been a problem, and the new bins seem to have helped reduce the problem. I discussed on-site with the Portfolio Holder for Highways the on-going difficulties with the Ship Street traffic lights and also

parking problems in the ward. Where needed, I requested streetlights to be placed back on for Anti Social Behaviour reasons. At residents request I arranged for new car parking at Borderers Way to include dedicated disabled parking bays.

**Section 3: Learning & Development** - after the elections in May 2012 induction sessions were provided during May and June to ensure that Councillors could undertake their roles. Ongoing monthly development is provided.

Induction sessions –Code of Conduct; Safeguarding and Corporate Parenting; Planning Protocol.

Ongoing development - Treasury Management, Information handling and data protection, Estyn update; Performance and project management, Pensions - Hedge Fund management; Members' Annual reports and using Outlook, Pensions – Investment seminar, Powys Change Plan, Making Social Media work for Councillors.

Development as a member of BBNPA - National Parks in Wales, Role of Members, Corporate Governance, Code of Conduct, Planning Protocol, Member/Officer Protocol Role of Chairmen, Social Inclusion.

**Section 4: Outside organisations and other activities**

I was involved with the twinning of Brecknockshire with Blaubeuren, Germany. Last year, as Town Council Mayor I welcomed a delegation from Blaubeuren to Brecon with a reception at the Guildhall and hosted a farewell dinner at The Castle Hotel on their return. The Brecknockshire County Council members were invited to these events.

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 15 Mai, 2013.  Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** Paul J. Ashton | **Ffôn:** 01874 623507 |
| **Ward:** St. Mary | **Ffôn symudol:** 07813 624799 |
| **Ardal:** Sir Frycheiniog | **Ebost:** cllr.paul.ashton@powys.gov.uk |
| **Grwp:** Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | **Dyddiad:** Medi 2013 |

**Adran 1: Rolau a Chyfrifoldebau**

Gwasanaethais ar y Pwyllgorau a'r Gweithgorau hyn o Gyngor Sir Powys [presenoldeb gwirioneddol  / nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd]:
Cyngor Sir Powys - 8/9
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Cadeirydd) - 5/6

- Gweithgor Datblygu Aelodau

Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau gan gynnwys paneli - 6/6
Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol [Is-Gadeirydd]
Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi [Is-Gadeirydd] - 4/5
Pwyllgor Sir Frycheiniog - 6/7
Bwrdd Rhesymoli Eiddo Aberhonddu
Gweithgor Amgueddfa Sir Frycheiniog
Pwyllgor Ymgynghorol Canolfan Hamdden Aberhonddu (Cadeirydd)
Gweithgor TAN 8

Rwy'n gwasanaethu ar y cyrff allanol hyn:
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) gan gynnwys y Pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Cynllunio
- Gweithgor Datblygu Aelodau
- Pwyllgor Busnes Brys

Ymddiriedolwr Biwro Gwirfoddolwyr Aberhonddu
Llywodraethwr Ysgol Babanod Mount Street
Llywodraethwr Ysgol Iau Mount Street

**Adran 2: Gweithgaredd Etholaethol**

Cynhaliais gymorthfeydd ar y cyd rheolaidd gyda naill ai'r A.S. neu'r A.C. yn swyddfa'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Aberhonddu, sydd yn fy ward.  Dosbarthais gylchlythyr rheolaidd "Ffocws" drwy'r ward (i 1,200 o gyfeiriadau).  Roedd gan hwn erthyglau o bwys i drigolion ac roedd yn cynnwys fy manylion cyswllt.  Gweithredais fel eiriolwr i drigolion mewn anghydfodau cynllunio ac ati, a rhoddais gyngor i breswylwyr mewn perthynas â materion CSP fel parcio, goleuadau stryd ac ati.

Mynychais gyfarfodydd cyhoeddus yn y ward a allai effeithio ar fy rôl fel Cynghorydd, e.e. Ymgynghoriadau'r Bwrdd Iechyd, cyfarfodydd yr Heddlu a'r Gymuned gyda'i Gilydd (PACT), Cwmniau Cyfleustodau ac ati.  Rhoddais sgyrsiau i PROBUS a'r Clwb Rotari yn Aberhonddu.

Ymyrrais gyda Swyddfa'r Post i gael blwch postio wedi'i ailagor, ac un arall wedi'i amnewid.
Gofynnais am finiau sbwriel ychwanegol mewn ardaloedd lle mae baw cŵn wedi bod yn broblem, ac mae'n ymddangos fod y biniau newydd wedi helpu i leihau'r broblem.
Trafodais gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd ar y safle yr anawsterau parhaus gyda'r goleuadau traffig yn Ship Street a hefyd y problemau parcio yn y ward. Lle roedd angen, gofynnais am i oleuadau stryd gael eu rhoi yn ôl am resymau yn ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Ar gais trigolion trefnais i le parcio ceir newydd yn Borderers Way gynnwys mannau parcio penodedig i'r anabl.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu** - ar ôl yr Etholiadau ym mis Mai 2012 darparwyd sesiynau cynefino yn ystod mis Mai a mis Mehefin er mwyn sicrhau y gallai'r cynghorwyr gyflawni eu rolau. Mae datblygiad misol parhaus yn cael ei ddarparu.

Sesiynau cynefino - Cod Ymddygiad; Diogelu a Rhianta Corfforaethol; Protocol Cynllunio.

Datblygiad parhaus - Rheoli'r Trysorlys, trin gwybodaeth a diogelu data, diweddariad Estyn; Rheoli perfformiad a phrosiectau, Pensiynau - rheoli 'Hedge Funds'; Adroddiadau blynyddol yr Aelodau a defnyddio Outlook, Pensiynau - seminar Buddsoddi, Cynllun Newid Powys, Gwneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr.

Datblygiad fel aelod o APCBB - Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, Rôl Aelodau, Llywodraethu Corfforaethol, Cod Ymddygiad, Protocol Cynllunio, Protocol Aelodau / Swyddogion, Rôl Cadeiryddion, Cynhwysiant Cymdeithasol.

**Adran 4: Cyrff Allanol a Gweithgareddau Eraill**

Roeddwn yn ymwneud â gefeillio Sir Frycheiniog gyda Blaubeuren, yr Almaen. Y llynedd, fel Maer Cyngor y Dref, croesewais ddirprwyaeth o Blaubeuren i Aberhonddu gyda derbyniad yn Neuadd y Dref a chynhaliais ginio ffarwelio yng Ngwesty'r Castell wrth iddynt ymadael. Gwahoddwyd aelodau Cyngor Sir Frycheiniog i'r digwyddiadau hyn.